TAFLEN GWYBODAETH

Diogelu Grwpiau Bregus

MAE CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG) YN CYDNABOD EI GYFRIFOLDEB I DDIOGELU GRWPIAU BREGUS RHAG NIWED. Y PRIF AMCAN YW AMDDIFFYN A HYRWYDDO LLES POB GRŴP BREGUS.

- Rydym yn cefnogi ac atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol a chanllawiau sydd wedi ei gynnwys yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006; a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008; a Gweithdrefnau a Pholisi Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus rhag Camdriniaeth 2010.
- Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gael cysondeb gyda fframwaith a phrotocolau sydd wedi eu cytuno yn lleol.

Pwy gaiff ei ddiffinio fel bregus?

- Oedolyn bregus yw rhywun sy'n 18 mlwydd oed neu drosodd sydd angen gwasanaethau gofal y gymuned oherwydd problemau iechyd meddwl, problemau addysgol neu anableddau eraill, oed neu salwch; neu berson sydd neu all fod heb y gallu i gymryd gofal o'u hunain neu ddim yn gallu amddiffyn eu hunain yn erbyn niwed neu gael eu hecsbloetio.
- Caiff 'plentyn' neu 'berson ifanc' ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywun o dan 18 mlwydd oed

Rydym yn cydnabod bod gan grwpiau bregus yr ydym ni'n darparu gwasanaethau iddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a'r safon gorau un o ofal.

Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn grwpiau bregus ac ymdrin â honiadau, pryderon neu ddatgelu camdriniaeth yn effeithiol.

Byddwn yn cadw cyfrinachedd wrth ymdrin â materion o ddiogelu ond efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i ni (er enghraifft, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Cymorth i Ferched) yn unol â deddfwriaeth berthnasol a phrotocolau wedi eu cytuno.

Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol rhwng pobl broffesiynol yn hanfodol er mwyn diogelu grwpiau bregus.

Beth yw camdriniaeth?

Caiff camdriniaeth ei ddiffinio fel bod unrhyw berson neu bersonau yn troseddu yn erbyn hawliau dynol a sifil unigolyn eraill. Gall camdriniaeth gynnwys un weithred neu sawl gweithred. Gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw berthynas neu yn unrhyw le a gall olygu niwed neu ecsbloetio'r person.

Gall camdriniaeth ddigwydd mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- Corfforol
- Rhywiol
- Emosiynol / seicolegol
- Economaidd ac ariannol
- Esgeulustod
- Gwahaniaethol a / neu drosedd casineb
- Camdriniaeth yn y cartref
- Priodas orfodol

Mae diffiniadau llawn o bob math o gamdriniaeth wedi eu cynnwys yn y Polisi Diogelu Grwpiau Bregus CCG (H&Sopl34c).

Yn parhau drosodd >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

TAFLEN GWYBODAETH

Diogelu Grwpiau Bregus

Dangosyddion camdriniaeth

Mae yna sawl dangosydd o gamdriniaeth, bydd y rhain yn amrywio oherwydd y math o gamdriniaeth.

- Efallai y bydd dioddefwyr camdriniaeth corfforol yn dangos tystiolaeth o grafiadau,cleisiau,llosgiadau a sgaldiadau.
- Efallai y bydd dioddefwyr camdriniaeth rywiol yn mynd yn fewnblyg, yn ei chael hi'n anodd cerdded neu eistedd neu fod newid yn eu hymddygiad arferol.
- Efallai y bydd dioddefwyr emosiynol neu seicolegol yn dangos lefelau uchel o straen neu bryder, yn hunan niweidio, yn dangos arwyddion o iselder neu eisiau sylw.
- Dangosyddion posib o gamdriniaeth ariannol neu economaidd yw diffyg eiddo fel dillad neu eitemau personol fel ffôn symudol.
- Efallai y bydd dioddefwyr o esgeulustod yn dangos y canlynol - iechyd yn dirywio, brechau, doluriau, dillad anaddas neu gyflyrau iechyd sydd heb eu trin.

Gellir cael rhestr lawn o gamdriniaeth a dangosyddion ym Mholisi Diogelu Grwpiau Bregus CCG (H&Spol34c).

Os oes yna sefyllfaoedd sy'n achosi pryder lle mae yna risg dylech adrodd i Gofal Cwsmer ar **0300 123 8084** neu anfon y ffurflen gyfeirio briodol (H+Sf43) at **cyfeirio@ccgwynedd.org.uk** cyn gynted â phosib.

Os tu allan i oriau cysylltwch â Cyngor Gwynedd ar **01248 353 551**

Os oes pryder dybryd am ddiogelwch galwch y Gwasanaeth Brys

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084** neu www.ccgwynedd.org.uk am wybodaeth bellach neu am gopi o'r Polisi Diogelu Grwpiau Bregus (H&Spol34c).

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Safeguarding Vulnerable Groups

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG) RECOGNISES ITS RESPONSIBILITY TO SAFEGUARD VULNERABLE GROUPS FROM HARM. THE OVERALL AIM IS TO PROTECT AND PROMOTE THE WELFARE OF ALL VULNERABLE GROUPS.

- We support and reinforce existing legislation and government guidance included in the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006; the All Wales Child Protection Procedures 2008; the All Wales Interim Policy and Procedures for the Protection of Vulnerable Adults from Abuse 2010.
- We also work with local partners to seek consistency with locally agreed framework and protocols.

Who is defined as vulnerable?

- A vulnerable adult is somebody who is aged 18 or over who is or may be in need of community care services because of mental health problems, learning difficulties or other disability, age or illness; and who is or may be unable to take care of themselves or unable to protect themselves against harm and/or exploitation.
- A 'child' or 'young person' is used to describe anyone under 18 years of age.

We recognise that vulnerable groups who use our services have a right to protection from abuse and the highest possible standard of care.

We are committed to protecting vulnerable groups and dealing with allegations, concerns and disclosures of abuse effectively.

We will maintain confidentiality when dealing with issues of safeguarding but may share information with partner agencies (for example, Social Services, Police, Womens Aid) in accordance with relevant legislation and agreed protocols.

Effective sharing and exchange of relevant information between professionals is essential in order to safeguard vulnerable groups.

What is abuse?

Abuse is defined as a violation of an individual's human and civil rights by any other person or persons. Abuse may be a single act or repeated acts. Abuse can occur in any relationship and in any location and may result in significant harm to, or exploitation of, the person subjected to it.

Abuse may take many different forms including:

- Physical
- Sexual
- Emotional / psychological
- Economic and financial
- Neglect
- Discriminatory and / or hate crime
- Domestic violence
- Forced marriage

Full definitions of each form of abuse are in CCG's Safeguarding Vulnerable Groups Policy (H&Spol34).

Continues >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Safeguarding Vulnerable Groups

Indicators of abuse

There are many indicators of abuse, the indicators will vary due to the type of abuse.

- Physical abuse sufferers may show evidence of scratches, bruises, burns and scalds.
- Sexual abuse sufferers may show signs of withdrawal, difficulty in walking or sitting or a change in usual behaviour.
- Emotional or psychological sufferers may show high levels of stress or anxiety, self-harm, signs of depression or crave affection.
- Possible indicators of financial or economic abuse include a lack of possessions such as clothing or personal items missing such as a mobile phone.
- Victims of neglect may show the following signs - deterioration of health, rashes, sores, unsuitable clothing or untreated medical condition.

Full list of indicators and examples of abuse can be found in CCG's Safeguarding Vulnerable Groups Policy(H&Spol34).

If you identify situations of concern where there is a risk you should report to customer services on **0300 123 8084** or using the appropriate referral form (H&Sf43) send to **cyfeirio@ccgwynedd.org.uk** as soon as possible

If out of hours contact Cyngor Gwynedd on **01248 353551**

If there is immediate concern for safety call the Emergency Services

For more information

Contact us on **0300 123 8084** or www.ccgwynedd.org.uk for further information or a copy of the Safeguarding Vulnerable Groups Policy(H&Spol34).

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD